# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 14 Mai 2012** |
| Amser: | **13:15 – 13:45** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_500001_14_05_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Jocelyn Davies**<br>**William Graham**<br>**Jane Hutt** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Sarah Beasley, Clerc, Swyddfa Ddeddfwriaeth**<br>**Marion Stapleton, Llywodraeth Cymru** |

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2. Diwygio Rheolau Sefydlog: Biliau Preifat

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ystyried drafft diwygiedig o'r Rheolau Sefydlog mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Busnes yn y dyfodol, ac ar ôl hynny byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn paratoi adroddiad i'w osod gerbron y Cynulliad.

2(i) **Cyflwyno Biliau Preifat (RhS 26A.1 – 26A.14)**

Ystyriodd y Rheolwyr Busnes y dulliau gwahanol ar gyfer Rheol Sefydlog 26A.6 arfaethedig a amlinellwyd gan swyddogion.

Nododd y Rheolwyr Busnes y byddai penderfynu ar ffioedd yn fater i Gomisiwn y Cynulliad.

Nododd y Rheolwyr Busnes hefyd sut y mae Rheol Sefydlog 26A.13 arfaethedig yn nodi gofynion eang o ran cyhoeddi a rhoi cyhoeddusrwydd i'r hysbysiad.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor ar Reolau Sefydlog 26A.1– 26A.14 arfaethedig.

2(ii) **Cyfnod Gwrthwynebu (RhS 26A.15 – 26A.24)**

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor ar Reolau Sefydlog 26A.15 – 26A.24 arfaethedig.

2(iii) **Pwyllgorau Biliau Preifat (RhS 26A.25 – 26A.36)**

Nododd y Rheolwyr Busnes fod Rheol Sefydlog 26.31 yn gosod gofyniad y bydd aelodau o'r Pwyllgor Bil Preifat yn dilyn hyfforddiant.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor ar Reolau Sefydlog 26A.25 – 26A.36 arfaethedig.

2(iv) **Ystyriaeth Gychwynnol (RhS 26A.37 – 26A.44)**

Gofynnodd y Rheolwyr Busnes am gadarnhad am sut y byddai'r materion a ystyrir yn ystod Ystyriaeth Gychwynnol yn wahanol i'r rhai y byddai'r Llywydd yn eu hystyried wrth roi caniatáu i'r Bil gael ei osod.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor ar Reolau Sefydlog 26A.37 – 26A.44 arfaethedig.

2(v) **Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor (RhS 26A.45 – 26A.70)**

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor ar Reolau Sefydlog 26A.45 – 26A.70 arfaethedig.

2(vi) **Ystyriaeth Fanwl gan y Cynulliad (RhS 26A.71 – 26A.83)**

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor ar Reolau Sefydlog 26A.45 – 26A.70 arfaethedig.

2(vii) **Y Cyfnod Terfynol ac Ailystyried Biliau Preifat a Basiwyd (RhS 26A.84 – 26A.94)**

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor ar Reolau Sefydlog 26A.84 – 26A.94 arfaethedig.

2(viii) **Gwelliannau i Filiau Preifat (RhS 26A.95 – 26A.104)**

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor ar Reolau Sefydlog 26A.95 – 26A.104 arfaethedig.

2(ix) **Newid Hyrwyddwr a Chydsyniad Ei Mawrhydi a Dug Cernyw (RhS 26A.105 – 26A.112)**

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor ar Reolau Sefydlog 26A.105 – 26A.112 arfaethedig.

### 2(x) Penderfyniadau Ariannol (RhS 26A.113 – 26A.119)

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor ar Reolau Sefydlog 26A.113 – 26A.119 arfaethedig.

### 2(xi) Hysbysu ynghylch Cydsyniad Brenhinol i Ddeddfau Preifat y Cynulliad a Biliau Preifat yn Methu, yn Cael eu Gwrthod neu'n Cael eu Tynnu'n ôl (RhS 26A.120 – 26A.123)

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor ar Reolau Sefydlog 26A.113 – 26A.119 arfaethedig.

### 2(xii) Newidiadau Canlyniadol i Reolau Sefydlog (RhS 15.1)

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor ar newidiadau canlyniadol i Reol Sefydlog 15.1.